YSGOL BRYNREFAIL

CYSTADLEUAETH GWYL GWYDDONIAETH PRIFYSGOL BANGOR

Fe ddaeth Mari Tachwedd a chlod mawr iddi ei hun, ei theulu ac i Ysgol Brynrefail yn ddiweddar trwy ennill y wobr gyntaf am farddoniaeth yng Ngwyl Gwyddoniaeth Prifysgol Bangor. Derbyniodd Mari ei gwobr gan Maer Bangor, Mrs Dorothy Bulled M.B.E. ar fore Sadwrn 12fed Mawrth 2011 yn Amgueddfa ac Oriel Gelfyddyd Bangor.

Glan yr Afon

Dianc i lan yr afon,
dianc i ben draw byd.
Gofidiau yn boddi
yn nyfnder yr afon.
Poenau yn diflannu
yng nghyfiawnder y lli.
Hiraeth
dim ond gair diystyr
mwyach.
Llonydd gorffenedig
Yw llonydd yr afon.
Trydar adar
yn sisial yr awel
wrth alw i wylio'r nos yn galw.
Ar y garreg
eisteddai f'annwyl gariad,
Fy nghariad
sy'n rhosyn coch heb ddrain.
Safem fan honno
i wylied yr haul yn mynd i lawr
a gadael i'r dail
sibrwd iaith ein meddyliau.

Mari Tachwedd